BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# LLIFOGYDD

Tachwedd 2025



## PAPUR CEFNDIR - BP21A

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Llifogydd**

i. Mae'r papur cefndir hwn yn un o gyfres a gynhyrchwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i lywio'r polisïau a dyraniadau safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Adneuo. Gellir darllen pob papur cefndir ar ei ben ei hun neu ynghyd â phapurau cefndir eraill i gael dealltwriaeth ehangach o'r materion defnydd tir sy'n wynebu Bro Morgannwg.

ii. Mae'r papur hwn yn nodi ymateb y Cyngor i'r gofynion polisi ar gyfer llifogydd fel y'u cynhwysir yn Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd (Mawrth 2025) ac mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi ystyried perygl llifogydd mewn perthynas â dyraniadau cyflogaeth a thai a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo.

iii. Mae'n rhoi trosolwg o'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) Cam 1 a gynhaliwyd ar ran Cyngor Bro Morgannwg i lywio'r gwaith o ddatblygu'r opsiynau gofodol ar gyfer y CDLIN ac yn esbonio sut mae llifogydd wedi bod yn ffactor pwysig wrth asesu a dewis safleoedd ymgeisiol.

iv. Yn olaf, mae'r papur yn rhoi trosolwg o ddyraniadau safleoedd yn y CDLIN Adneuo o ran sut yr eir i'r afael â llifogydd ar safleoedd a gynigir i'w dyrannu lle nodir risg o lifogydd ar eu cyfer.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

